

## OWEN, MORGAN (1585? - 1645), esgob Llandaf

**Enw:** Morgan Owen  
**Dyddiad geni:** 1585?  
**Dyddiad marw:** 1645  
**Rhiant:** Owen Rees  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** esgob Llandaf  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd c. 1585, trydydd mab y Parch. Owen Rees, y Lasallt, Myddfai, Sir Gaerfyrddin. Disgrifir ef fel un o ddisgynyddion ' Meddygon Myddfai.' Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Caerfyrddin a Choleg Iesu, Rhydychen, a daeth yn ddiweddarach yn gaplan New College, gan raddio'n B.A. yn 1613. Daeth yn gaplan i William Laud pan oedd hwnnw'n esgob Tyddewi, a daliodd nifer o swyddi a bywiolaethau yn yr esgobaeth honno; yn 1636 gwnaed ef yn D.D. Prifysgol Rhydychen. Caeodd gyntedd deheuol Eglwys Fair yn Rhydychen a chodi porth yno yn 1637. Dewiswyd ef yn esgob Llandaf, Mawrth 1639/40, a daliodd reithoraethau Bedwas a Rhydri 'r un pryd. Yn 1641 cyhuddwyd ef am iddo gyhoeddi canonau 1640, a'i garcharu yn Nhŵr Llundain; bu yno eilwaith yn 1642. Wedyn dychwelodd i Gymru; collasai ei blas yn Mathern a'i eiddo, ac ymneilltuodd i'r Lasallt, lle y bu farw 5 Mawrth 1645. Claddwyd ef ar yr aswy i'r allor yn eglwys Myddfai, ac y mae yno goflech iddo.

### Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Morgan Owen

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6911804

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Ellis, T. I., (1953). OWEN, MORGAN (1585? - 1645), esgob Llandaf. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-OWEN-MOR-1585>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government